# Swyddog Rheolaeth Adeiladu Cynorthwyol
# (Dros dro - cytundeb 2 flynedd)

## Pecyn Recriwtio






LABC

Rheolaeth Adeiladu/Building Control

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | 3 |
| Hysbysiad Swydd | 4-6 |
| Swydd Ddisgrifiad | 7-10 |
| Manylion y Person | 11-12 |
| Sut i Ymgeisio | 13 |




# Croeso

Annwyl Ymgeisydd,

**Swyddog Rheolaeth Adeiladu Cynorthwyol (dros dro - cytundeb 2 flynedd)**

Diolch am ddangos diddordeb mewn gwneud cais ar gyfer y swydd hon. Mae Gwynedd yn adnabyddus am ei harddwch naturiol, ond mae'r Sir yn unigryw ac amrywiol a'n huchelgais ni fel Cyngor yw gweld ein cymunedau a'n pobl yn ffynnu.

Mae'r swydd hon yn gyfle gwirioneddol i unigolyn talentog fod yn rhan o'r Tîm Rheolaeth Adeiladu sy'n gweithio'n arloesol, ac er lles ein pobl. Rydym ni'n eithriadol o falch eich bod chi'n ystyried ymuno gyda ni wrth i ni weithio tuag at wireddu ein nodau yn y Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu.

Mae holl fanylion y swydd, yn ogystal â manylion cefndirol eraill, ar gael yn y ddogfen ganlynol.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y Cyngor ar ein gwefan www.gwynedd.llyw.cymru

Yn y cyfamser, os hoffech chi gael sgwrs anffurfiol am unrhyw ran o'r swydd, cysylltwch â mi ar 01341 424396 / 07917 557701 neu e-bostiwch: martinbarrowevans@gwynedd.llyw.cymru

Edrychwn ymlaen i dderbyn eich cais.

Yn gywir,

Martin Barrow Evans
Rheolwr Rheolaeth Adeiladu

# Hysbyseb Swydd

**Swyddog Rheolaeth Adeiladu Cynorthwyol (dros dro - cytundeb 2 flynedd)**

**£30,151 - £32,020**

**Cyfanswm gwerth buddion gan gynnwys cyfraniad pensiwn CPLIL (£36,301 - £38,552)**

- Cefnogaeth wedi'i hariannu'n llawn i dderbyn Siarteriaeth i gorff perthnasol (MCABE/MRIC S/MCIOB), a'r hyfforddiant a chymwysterau angenrheidiol er mwyn cael trwydded BSR o ddod yn Arolygydd Rheolaeth Adeiladu cofrestredig.
- Gwyliau hael gyda hyd at 33 diwrnod i ffwrdd bob blwyddyn, gwyliau banc, a hyd at 13 diwrnod ychwanegol i ffwrdd bob blwyddyn dan ein cynllun oriau ystwyth 'Super-flexitime'.
- Gweithio hyblyg - cyflogwr sy'n ymroddedig i ystyried a chefnogi staff i weithio'n hyblyg, fel modd o gael cydbwysedd iach rhwng ymrwymiadau personol a gwaith.

Mae hwn yn gyfle gyrfa cyffrous i ymuno â Rheolaeth Adeiladu Cyngor Gwynedd.



Ar hyn o bryd, rydym ni'n chwilio am Swyddog Rheolaeth Adeiladu Cynorthwyol talentog a brwdfrydig i ymuno â'n tîm cyfeillgar a phroffesiynol, sydd ag enw da am gyflwyno gwasanaeth o ansawdd uchel ar draws sir brydferth Gwynedd. Mae trigolion Gwynedd ymysg yr hapusaf yng Nghymru. Nid yw hyn yn syndod, o ystyried bod mwyafrif helaeth y sir o fewn ardaloedd o harddwch eithriadol, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri. Gydag amgylchedd glân a hamddenol, mae mynyddoedd ac arfordir Gwynedd yn hafan ddelfrydol i adfywio'r enaid. Mae ein cymunedau ymysg y diogelaf yn y wlad, ac mae ein dwyieithrwydd naturiol yn cyfoethogi'r diwylliant lleol ym mhob agwedd o fywyd. Mae'n lle gwych i fagu'r genhedlaeth nesaf, ac mae'r ysgolion a cholegau addysg bellach yn y sir yn cynnig addysg a hyfforddiant heb ei ail. Yn syml, mae Gwynedd yn lle anhygoel i fyw.

Wrth weithio dan gyfarwyddyd yr arweinydd tîm Rheolaeth Adeiladu fe fyddwch yn gyfrifol am gynorthwyo'r Arweinydd Tîm a Syrfewyr Ardal Rheolaeth Adeiladu. Pan fyddwch yn gymwys, byddwch yn gyfrifol o dan oruchwyliaeth ardal ddaearyddol fechan i hybu eich datblygiad hyfforddiant, yn ogystal â chyfrannu at waith ar draws y sir yn ôl yr angen. Bydd hyfforddiant a chymwysterau proffesiynol LABC wedi'u hariannu'n llawn hyd at Lefelau 4 a 5 yn cael hyfforddiant a chymorth mewnol, gan sicrhau dilyniant gyrfa wrth gael trwydded BSR fel Arolygydd Rheoli Adeiladu cofrestredig yn dilyn Deddf Diogelwch Adeiladu 2022 newydd.

I fod yn llwyddiannus, bydd gennych ddyheadau i ddatblygu'r gwasanaeth a gweithio ar brosiectau newydd a chyffrous, a darparu gwasanaeth gwych ar gyfer pobl Gwynedd.

Fel tyfiant gwasanaeth, hyfforddiant a datblygiad tîm i ddarparu lefel uchel o wasanaeth yn arloesol yn ystod cyfnod o newid, gyda gweithrediad y ddeddfwriaeth Diogelwch Adeiladu.





Mae nifer o fanteision o weithio i ni, gan gynnwys:

- Gweithio hyblyg, rydym ni'n cydnabod pwysigrwydd cefnogi ein gweithwyr i gydbwyso eu bywyd cartref a gwaith ac i allu gweithio yn y ffordd fwyaf effeithlon. Mae cynllun 'Super-Flexitime' hefyd yn cael ei weithredu sy'n gallu helpu i reoli gwaith ac ymrwymiadau personol.
- Hyfforddiant a Datblygiad - dilysiad medrusrwydd a chymwysterau LABC, CPD a digwyddiadau hyfforddiant wedi'u hariannu'n llawn.
- Taliad blynyddol o un aelodaeth o gorff proffesiynol sy'n berthnasol i Reolaeth Adeiladu.
- Mae Cynlluniau Aberthu Cyflog yn gwneud arbediadau enfawr gyda - chynlluniau Car prydles a 'Cycle2Work'.
- Cynllun prynu car cynorthwyedig.
- Disgownt Ffordd o Fyw Buddion y Gweithiwr - cannoedd o ddisgowntiau mewn siopau a bwytai lleol a chenedlaethol, gwyliau a llawer mwy.
- Cyflogwr sy'n anelu i gyrraedd y safon uchaf wrth reoli iechyd, diogelwch a lles ei staff.

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig pecyn cyflogaeth atyniadol, dilynwch y ddolen am fuddion pellach www.gwynedd.llyw.cymru/gweithio-i-ni

Os oes gennych ddull positif o weithio mewn tîm i ddarparu gwasanaeth ac yn dymuno gweithio yn sir brydferth Gwynedd, dyma gyfle gwych i ddatblygu eich sgiliau a chael gwir effaith wrth wella ein gwasanaethau.

Am sgwrs anffurfiol am y rôl hon, cysylltwch â Martin Barrow Evans,
Rheolwr Rheolaeth Adeiladu ar 01341 424396 / 07917 557701.





# Swydd Ddisgrifiad

**Pwrpas y swydd**

- Sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud.
- Cynorthwyo’r Arweinydd Tîm a'r Rheolwr Rheolaeth Adeiladu gyda gweinyddiaeth a gorfodaeth y Rheoliadau Adeiladu presennol a’r ddeddfwriaeth yn swyddfa ardal benodol fel rhan o dîm dan oruchwyliaeth uniongyrchol yr Arweinydd Tîm i sicrhau gwasanaeth effeithlon, cost effeithiol, ragweithiol ac atebol.
- Gweithredu o fewn polisïau’r Cyngor i sicrhau bod y targedau perfformiad a’r Cynllun Busnes yn cael eu cwrdd yn llawn.
- Arwain a goruchwylio sefyllfaoedd Strwythurau Peryglus dan Adran 77 a 78, Hysbysiadau Dymchwel dan Adran 80 ac 81, ac A79 (Adeiladau dinistriol a dadfeiledig) Masnachol y Ddeddf Adeiladu 1984.



**Cyfrifoldeb am swyddogaethau. e.e. staff, cyllidebau, offer**

- Cynorthwyo i sicrhau bod yr uned a'r gwasanaeth yn cyrraedd targedau'r uned, yr adran a'r Cyngor mewn perthynas â materion perfformiad ac ariannol.
- Sicrhau bod ffioedd Rheoliadau Adeiladu cywir yn cael eu dyfynnu i'r cwsmer.
- Cyfrifoldeb am gerbyd(au) y Cyngor, offer syrfeio pan fydd yn cael ei ddefnyddio, ac Offer Diogelu Personol.
- Cynorthwyo'r Uwch Dîm Rheoli wrth weithredu/ gwellhad parhaus o systemau a gweithdrefnau TG effeithiol, yn cynnwys LABC ISO 9001:2015 QMS.
- Cyfrifoldeb am reoli gwybodaeth yn unol â safonau a chanllawiau rheoli gwybodaeth y Cyngor. Sicrhau yr ymdrinnir â gwybodaeth bersonol mewn modd sy’n cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data.

**Prif Ddyletswyddau**

- Cynorthwyo'r Tîm Rheolaeth Adeiladu gyda'i lwyth gwaith.
- Gorfodi Rheoliadau Adeiladu a deddfwriaeth gysylltiedig.
- Ymgymryd â'r gwaith o wirio cynlluniau.
- Cynnal archwiliadau safle.
- Ymgynghori gyda chyrff allanol fel peirianwyr strwythurol, Awdurdod Tân a'r Awdurdod Dŵr.
- Cynorthwyo wrth hyrwyddo a marchnata'r gwasanaeth.
- Ymgymryd â chyfrifoldebau swyddog partner i gleientiaid penodol pan fo angen.
- Cynorthwyo wrth hyrwyddo'r swyddogaeth Rheolaeth Adeiladu cyffredinol.

**Dyletswyddau a Thasgau**

- Gwirio a chymeradwyo Ceisiadau Cynllun Llawn o fewn y cyfnodau statudol.
- Cadw golwg ar ail-gyflwyniadau a newidiadau.
- Archwiliadau ac asesiadau Ceisiadau Hysbysiad Adeiladu.
- Ymdrin gyda'r holl archwiliadau safle a ofynnwyd drwy hysbysiadau statudol, a chynnal archwiliadau fel bo'r angen heb hysbysiad i sicrhau bod cydymffurfio gyda'r rheoliadau.
- Cadw cofnodion cywir a manwl gywir am yr holl archwiliadau a'r ymweliadau wnaed.
- Darparu cyngor cyn-gymhwyso pan ofynnir a chyngor arall i benseiri a chwsmeriaid posib.



- Archwilio a delio gyda gwaith anawdurdodedig.
- Bod yn hyblyg yn y ffordd yr ydych yn ymdrin gyda'r posibilrwydd o lacio Rheoliadau Adeiladu.
- Ymgynghori gydag ymgeiswyr, asiantwyr ac adeiladwyr i drafod, roi cyngor, dylanwadu a darparu atebion yn ymwneud â cheisiadau.
- Ateb ceisiadau penodol gan Benseiri, syrfewyr, adeiladwyr a'r cyhoedd ynglŷn â'r holl faterion sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Adeiladu.
- Sicrhau'r lefel uchaf o wasanaeth bob amser i'r cleientiaid drwy adolygu, datblygu a gwella systemau a phrosesau yn rheolaidd.
- Yn gyfrifol am waith partneru yn unol â dymuniadau'r Arweinydd Tîm.
- Yn gyfrifol am eich datblygiad eich hun drwy ddilyn rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus.
- Yn ymwybodol o welliannau a datblygiadau technegol.
- Yn gyfrifol am weithio fel rhan o dîm.
- Sicrhau hunanddatblygiad a hyfforddiant i lefel medrusrwydd priodol (dan ofynion matrics medrusrwydd LABC), ac yn unol gydag anghenion y gwasanaeth.
- Cyfrifoldeb am hunanddatblygiad.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y gweithle yn unol â'r cyfrifoldebau a nodir yn Neddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Pholisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor.
- Gweithredu oddi mewn i bolisïau'r Cyngor yng nghyswllt cyfle cyfartal a chydraddoldeb.
- Cyfrifoldeb am reoli gwybodaeth yn unol â chanllawiau rheoli gwybodaeth y Cyngor. Sicrhau yr ymdrinnir â gwybodaeth bersonol mewn modd sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data.
- Ymrwymiad i leihau allyriadau carbon y Cyngor yn unol â'r Cynllun Rheoli Carbon ac annog eraill i weithio'n gadarnhaol tuag at leihau ôl-troed carbon y Cyngor.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd arall resymol sy'n cyfateb â lefel cyflog a lefel cyfrifoldeb y swydd.
- Cyfrifoldeb i adrodd am unrhyw bryder neu amheuaeth bod plentyn neu oedolyn bregus yn cael ei gam-drin.





**Amgylchiadau Arbennig. e.e. yr angen i weithio oriau anghymdeithasol, trefniadau gwaith arbennig ac ati**

- Bydd angen i ddeilydd y swydd weithio mewn modd Agile, gyda gofyniad i ymweld â safleoedd adeiladu a weithredir ac a reolir gan gontractwyr preifat.
- Bydd deilydd y swydd yn datblygu sgiliau mewn asesiad risg dynameg o safleoedd i sicrhau eu bod yn ddiogel i gael mynediad iddynt i ddibenion cynnal archwiliadau.
- Disgwylir i ddeilydd y swydd yn ddyddiol i ddefnyddio cryn dipyn ar PC/Gliniadur.
- Disgwylir i ddeilydd y swydd weithio mewn modd hyblyg ar draws y tasgau a lleoliadau ar draws y Cyngor
- Bydd peryglon arferol yn gysylltiedig gyda gweithrediadau ar safleoedd yn cynnwys gweithio mewn ffosydd, ar uchder ar ysgolion, a bod yn agored i ddeunyddiau peryglus, ond gydag offer diogelu personol addas ar gael.
- Mae'n bosib y bydd yn gorfod wynebu sefyllfaoedd gwrthdrawol.
- Bydd mewn cerbyd, yn gyrru ymhob tywydd.
- Bydd yn gorfod gwisgo dillad gwarchod addas.
- Gweithio'n Unigol.
- Mewn Ymchwiliadau Cyhoeddus ac ati, y gofyn i weithio y tu allan i oriau swyddfa.
- Galwadau i weithio tu allan i oriau o ran bod ar alwad a galwadau i fynd i weld strwythurau peryglus pan fo angen.

# Manylion y Person



**Nodweddion personol**

Hanfodol - Sgiliau gwaith tîm da, sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol da, sgiliau dadansoddi cryf, dibynadwy gydag agwedd gref tuag at waith, agwedd aeddfed a phroffesiynol, y gallu i addasu a hyblygrwydd yn y rôl.

**Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol**

Hanfodol - OND/ONC neu cymhwyster cyfwerth mewn pwnc amgylchedd adeiledig neu brofiad perthnasol mewn diwydiant.
Dymunol - Aelod Graddedig/Cyswllt o RICS, CABE neu CIB yn nisgyblaeth Rheolaeth Adeiladu. Gradd mewn pwnc amgylchedd adeiledig. Cymhwyster/Dilysiad Medrusrwydd Lefel 4 a 5, LABC.

**Profiad perthnasol**

Hanfodol - Gwybodaeth am y maes Adeiladu sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig.
Dymunol - Dealltwriaeth a phrofiad o ddelio â gofynion yr Rheoliadau Adeiladu 2010, Deddf Adeiladu 1984, a'r Ddeddfwriaeth Gysylltiedig. Profiad o ymdrin â Chontractwyr Adeiladu, Penseiri, peirianwyr Strwythurol a'r cyhoedd yn gyffredinol. Profiad safle adeiladu. Dealltwriaeth o gynlluniau a manylebau pensaernïol.

**Sgiliau a gwybodaeth arbenigol**

Hanfodol - Gwybodaeth am safonau technegol a dulliau Adeiladu. Sgiliau TG da. Defnydd o amryw o ofynion meddalwedd. Sgiliau rhyngbersonol da. Gallu i reoli llwyth gwaith eu hunain. Trwydded yrru lawn a mynediad i gar. Gallu gweithio dan bwysau.
Dymunol - Profiad deddfwriaeth Diogelwch Tân. Profiad Asesiad SAP. Gwybodaeth o ISO 9001, neu systemau rheoli ansawdd tebyg.



# Manylion y Person (parhau)



**Gofynion iaith**

Gwrando a Siarad
Yn medru dilyn sgwrs neu drafodaeth ar lefel broffesiynol yn y Gymraeg a'r Saesneg a thrafod pynciau gwaith cyffredinol er mwyn cyfleu gwybodaeth a rhoi barn.

Os yn berthnasol, yn medru gwneud cyflwyniad sydd wedi'i baratoi ymlaen llaw ac ateb unrhyw gwestiynau allai godi yn Gymraeg a Saesneg.

Darllen a Deall
Medru casglu gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau megis llythyrau, adroddiadau, erthyglau ac ati yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn cyflawni gofynion y swydd.

Ysgrifennu
Cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig yn hyderus ar ffurf llythyr, adroddiad mwy technegol ac ymateb i geisiadau ysgrifenedig drwy gyfleu gwybodaeth, barn a syniadau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg (Mae cymorth ar gael i wirio gwaith ysgrifenedig).



# Sut i wneud cais

Adolygwch Fanylion y Person a'r Swydd Ddisgrifiad ac addaswch eich cais ar gyfer y rôl yn benodol.

I ymgeisio am y swydd, ewch i www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi

Ceisiadau i'w cyflwyno ddim hwyrach na 12, hanner dydd, ddydd Iau 8 Rhagfyr 2022.

Amserlen (cywir ar adeg cyhoeddi)

| **Dyddiad** | **Cam** | **Manylyn** |
|---|---|---|
| 24ain Tachwedd 2022 | Hysbysebwyd y Rôl | Gall ffurflenni cais eu cyflwyno. |
| Hanner dydd, 8fed Rhagfyr 2022 | Dyddiad cau i dderbyn Ffurflen Gais | Caiff y ffurflenni cais eu coladu ar gyfer llunio rhestr fer. |
| 9fed Rhagfyr 2022 | Proses llunio rhestr fer yn cychwyn | Fe'ch hysbysir ynghylch deilliant eich cais wedi i'r broses o lunio rhestr fer gael ei chwblhau. |
| I'w gadarnhau | Cyfweliad | Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus sydd wedi cael eu rhoi ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i fynychu cyfweliad am swydd. |

Cysylltwch â Martin Barrow Evans i wneud ymholiadau anffurfiol ar 01341 424396 /07917 557701 neu e-bostiwch martinbarrowevans@gwynedd.llyw.cymru

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r broses neu addasiadau rhesymol cysylltwch â DesgAdnoddauDynol@gwynedd.llyw.cymru